DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

Cyngor Sir Ddinbych Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Rhuthun 202 .

Mae Cyngor Sir Ddinbych, wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (3), 4, 25, 32, 35, 36, 45, 46, 46A, 47, 49, 51, 52, 53, 124(1) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ddinbych) 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ac yn unol â Rhan III, Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar __/___/202 a gellir ei alw'n 'Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Rhuthun 202 '.

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol ar gyfer dehongli unrhyw Ddeddf Seneddol ac fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, at ddibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno, ac fel pe bai'r Gorchmynion a ddirymwyd gan y Gorchymyn hwn yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd.

3. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi'i osod, amrywio neu'i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy'n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn trechu.

4. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

5. Amrywir Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 (a elwir wedi hyn "y Prif Orchymyn") drwy hyn fel a ganlyn:

(i) dilëir y cynlluniau a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn o'r Prif Orchymyn ac fe'u disodlir â'r cynlluniau sydd wedi'u hatodi i'r Gorchymyn hwn a'u llofnodi mewn cysylltiad ag ef, ac wedi'u rhestru yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn eu hychwanegu at atodlenni 1 a 2 i'r Prif Orchymyn a'u hymgorffori ynddynt;

Seliwyd y Gorchymyn hwn a'r Atodlenni sydd ynghlwm gyda Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DDINBYCH
ar hyn
Y diwrnod o 202)
yng ngŵydd:-)

Llofnodwr Awdurdodedig

Hon yw'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yn y 'Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Rhuthun 202 ' uchod.

ATODLEN 1

Dilëir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol o Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021.

AP108

Hon yw'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yn y 'Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Rhuthun 202 ' uchod.

ATODLEN 2

Ychwanegir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol a'u hymgorffori yn Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021

AP108a
AP109
AQ109

DATGANIAD O RESYMAU

I atal cerbydau sy’n cael eu parcio’n aml ar Ffordd Llanfair, sy’n atal gweledded blaen gan gyfyngu ar lif diogel traffig gan arwain at dagfeydd lleol. Hefyd i atal cerbydau sydd wedi’u parcio sy’n achosi rhwystr i lif rhydd a diogel cerbydau a cherddwyr ger cyffordd Ffordd Llanfair gydag Erw Goch.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023408

Maint y map hwn ydy 312235 i 312735 o fetrau tua'r Dwyrain a 357995 i 358270 o fetrau tua'r Gogledd gan ddefnyddio Grid Cenedlaethol Prydain (EPSG 27700).

The extent of this map is 312235 to 312735 metres eastwards and 357995 to 358270 metres northwards using the British National Grid (EPSG 27700).

This is the map (AP108a) referred to in the foregoing Denbighshire County Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Consolidation) Variation No.2 Ruthin Order 2021

Allwedd Cyfyngiadau / Restriction Key

- Dim Aros Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time
- Dim Aros / Dim Llwytho / No Waiting / No Loading
- Deiliaid Trwydded Yn Unig / Permit Holders Only
- Aros Cyfyngedig / Limited Waiting
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho / No Waiting At Any Time / No Loading
- Cyfyngiad Amrywiol / Miscellaneous Restriction
- Dim Aros / No Waiting
- Baeau Tacsi / Taxi Bays
- Llwytho Yn Unig / Loading Only

Arall / Other

- Ffin CSD / DCC Boundary

Allwedd Labelau / Label Key

ABC — Cyfyngiadau Arfaethedig / Proposed Restrictions

ABC — Cyfyngiadau sy'n Bodoli. / Existing Restrictions.

GRADDFA / SCALE **1:1,250**

RHIF Y CYNLLUN / PLAN NUMBER **AP108a**



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023408

Maint y map hwn ydy 312235 i 312735 o fetrau tua'r Dwyrain a 357740 i 358015 o fetrau tua'r Gogledd gan ddefnyddio Grid Cenedlaethol Prydain (EPSG 27700).

The extent of this map is 312235 to 312735 metres eastwards and 357740 to 358015 metres northwards using the British National Grid (EPSG 27700).

This is the map (AP109) referred to in the foregoing Denbighshire County Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Consolidation) Variation No.2 Ruthin Order 2021

Allwedd Cyfyngiadau / Restriction Key

- Dim Aros Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time
- Dim Aros / Dim Llwytho / No Waiting / No Loading
- Deiliaid Trwydded Yn Unig / Permit Holders Only
- Aros Cyfyngedig / Limited Waiting
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho / No Waiting At Any Time / No Loading
- Cyfyngiad Amrywiol / Miscellaneous Restriction
- Dim Aros / No Waiting
- Baeau Tacsi / Taxi Bays
- Llwytho Yn Unig / Loading Only

Arall / Other

- Ffin CSD / DCC Boundary

Allwedd Labelau / Label Key

- ABC — Cyfyngiadau Arfaethedig / Proposed Restrictions
- ABC — Cyfyngiadau sy'n Bodoli. / Existing Restrictions.

GRADDFA / SCALE
1:1,250

RHIF Y CYNLLUN / PLAN NUMBER
AP109



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023408

Maint y map hwn ydy 312715 i 313215 o fetrau tua'r Dwyrain a 357740 i 358015 o fetrau tua'r Gogledd gan ddefnyddio Grid Cenedlaethol Prydain (EPSG 27700).

The extent of this map is 312715 to 313215 metres eastwards and 357740 to 358015 metres northwards using the British National Grid (EPSG 27700).

This is the map (AQ109) referred to in the foregoing Denbighshire County Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Consolidation) Variation No.2 Ruthin Order 2021

Allwedd Cyfyngiadau / Restriction Key

- Dim Aros Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time
- Dim Aros / Dim Llwytho / No Waiting / No Loading
- Deiliaid Trwydded Yn Unig / Permit Holders Only
- Aros Cyfyngedig / Limited Waiting
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd / No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time
- Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho / No Waiting At Any Time / No Loading
- Cyfyngiad Amrywiol / Miscellaneous Restriction
- Dim Aros / No Waiting
- Baeau Tacsi / Taxi Bays
- Llwytho Yn Unig / Loading Only

Arall / Other

- Ffin CSD / DCC Boundary

Allwedd Labelau / Label Key

- ABC — Cyfyngiadau Arfaethedig / Proposed Restrictions
- ABC — Cyfyngiadau sy'n Bodoli. / Existing Restrictions.

GRADDFA / SCALE
1:1,250

RHIF Y CYNLLUN / PLAN NUMBER
AQ109

CYNGOR SIR DDINBYCH
RHYBUDD O GYNIGION
(A525 FFORDD LLANFAIR AC ERW GOCH RHUTHUN)

Cyngor Sir Ddinbych
Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
(Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Rhuthun 202 .

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a fydd â'r effaith a ddisgrifir yn fyr isod:-

Yn fyr, effaith y Gorchymyn Amrywio fyddai:-

(i) cyflwyno gwaharddiad Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar A525 Ffordd Llanfair, ac ar Erw Goch, Rhuthun.

(ii) Cyflwyno gwaharddiad Dim Aros Rhwng Oriau 8.00 a 6.00pm ar ran byrrach o A525 Ffordd Llanfair, Rhuthun.

Nodir manylion llawn yr hyn a fwriedir yn y Gorchymyn drafft sydd, ynghyd â'r cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn a datganiad o'r rhesymau ar gyfer cynnig i wneud y Gorchymyn, i'w gweld ar-lein ar wefan y Cyngor (sgwrsysir.sirddinbych.gov.uk).

Gellir hefyd archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig a chynlluniau sy'n dangos y darnau o ffyrdd mae'r cynigion yn berthnasol iddynt ynghyd â datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Rhuthun, Rhuthun, Sir Ddinbych.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno ymateb i'r ymgynghoriad hwn ddefnyddio'r ffurflen adborth ar-lein os yw hynny'n bosibl.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny naill ai trwy lenwi'r holiadur sy'n berthnasol i'r cynigion, sydd ar gael o dan Borth Sgwrs y Sir ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (sgwrsysir.sirddinbych.gov.uk), neu trwy anfon datganiad ysgrifenedig o wrthwynebiad, gan nodi ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad, at y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun LL15 9AZ, erbyn 10 Chwefror 2022 fan bellaf. Sylwch y gallai unrhyw sylwadau y bydd y cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Sylwch y gallai unrhyw sylwadau y mae'r Cyngor yn ei dderbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Dyddiedig 19 Ionawr 2022

Gary Williams

Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych. (SBH/DCC041103)